Pobl Penweddig

www.penweddig.ceredigion.sch.uk

Noddir Pobl Penweddig gan Gymdeithas Cyfeillion Penweddig Hydref 2011

Llwyddiant Dyfeisiau Newydd ym Mhenweddig Unwaith Eto

Cafodd gwaith tri disgybl Safon Uwch Dylunio a Thechnoleg Penweddig, ei ddewis i gael ei arddangos yng Ngogledd a a De Cymru, yn ddiweddar. Mae 'Gwobrau Arloesedd CBAC' yn dathlu gwaith Dylunio a Thechnoleg Safon Uwch dyfeisgar a gwahanol o safon uchel.

Dewiswyd y 30 prif brosiect yng Nghymru gan dîm o'r Cynulliad, diwydiant, busnes, Addysg Uwch a CBAC. Roedd prosiectau Cern Hyde, Lefi Jones a Kathryn Botting, yn dri o'r 30 buddugol. Dyfais Cern yw'r 'Beat Box' sydd yn chwarae cerddoriaeth yn uchel iawn! 'Stash / Crash' Lefi yw cadair symudol ar gyfer y traeth sydd hefyd yn gallu trosglwyddo cyfarpar, a gwisg ar gyfer y traeth yw gwaith Kathryn. Gellir cyfuno'r gwisgoedd i'w gwisgo fel un neu'n annibynnol er mwyn creu edrychiad gwahanol. Arddangoswyd eu gwaith yn Venue Cymru, Llandudno ac yn Stadiwm SWALEC yng Nghaerdydd ym mis Hydref.

Cern Hyde

Kathryn Botting

Lefi Jones

Seiclo dros Gymru

Llongyfarchiadau i Dewi Davies Bl. 8 a gynrychiolodd Clwb Ffermwyr Ifainc Llanddeiniol, Ceredigion a Chymru yng nghystadleuaeth Diogelwch a Thrin Beic dan 16 oed yn Lloegr yn ddiweddar. Fe deithiodd i faes sioe Stafford i gystadlu a daeth yn gyntaf drwy ennill 95 o bwyntiau allan o 100. Tipyn o gamp!

Dewi yn derbyn ei wobr gan James Chapman, Cadeirydd Ffederasiwn Cenedlaethol Clybiau Ffermwyr Ifainc

ABCh

Cafwyd diwrnod ABCH llwyddiannus unwaith eto ar ddiwedd mis Medi. Bu sesiynau diddorol tu hwnt ar gyfer yr holl ddisgyblion gan gynnwys ioga, cyflwyniad gan y Llyfrgell Genedlaethol, dinasyddiaeth, gwylwyr y glannau, bywyd mewn carchar a gwrth-fwlian.

Sesiwn cymorth cyntaf gyda bl 7

Bl 9 yn cael sesiwn ioga

Theatr Ieuenctid Cerdd Prydain

Bu Sam Ebenezer Bl 12 yn mynychu cwrs yn Llundain dros yr haf. Treuliodd dair wythnos yn hyfforddi ac ymarfer ar gyfer y sioe 'Korczak' sef stori drist o'r Ail Ryfel Byd.

Roedd Janusz Korczak yn rhedeg amddifaty ar gyfer 192 o blant Iddewig a Chatholig yn Warsaw ac ym mis Awst 1942 cawsant eu hanfon i wersyll difodi Treblinka. Er i Korczak gael nifer o gyfleoedd i beidio â mynd, fe benderfynodd y byddai rhaid iddo edrych ar ôl y plant ar eu ffordd ac ni welwyd ef na'r plant eto.

Wedi wythnosau o hyfforddi yn Kingston upon Thames, fe aeth Sam ymlaen i chwarae rhan un o'r plant, Piotr, mewn chwe pherfformiad yn y Rose Theatre, yn y dref honno.

Sam Ebenezer Yr. 12

Diwrnod Dathlu T. Llew Jones

I ddathlu pen-blwydd T. Llew Jones eleni ar yr 11eg Hydref fe gynhaliwyd gwasanaeth arbennig i'r disgyblion yn y bore a chwis ar *Tân ar y Comin* yn y prynhawn.

Bu dau dîm o ferched blwyddyn 7 yn fuddugol gyda sgôr o 15 ½ o farciau allan o 20 ac enillasant docynnau llyfr yr un gwerth £5.

Y ddau dîm buddugol (chwith i dde): Catrin Moon, Kate Williams, Hanna Prytherch, Nerys Davies, Alaw O'Rourke ac Efa Gregory.

Llyfrbryfed Penweddig

Dewiswyd chwech o ddisgyblion yr ysgol i ddarllen ac yna adolygu llyfrau ar gyfer Cyngor Llyfrau Cymru. Tynnwyd lluniau Robin Tomos, Dwynwen Spink, Daniel Thomas, Ioan Lord, David Michael a Beca Davies o flwyddyn 9 a'u cynnwys ynghyd â'u hadolygiadau mewn pamffled a ddosbarthwyd i ysgolion uwchradd ledled Cymru.

Cyflwyno arian i elusennau

Ddiwedd tymor yr haf cynhaliwyd gwasanaeth dyngarol gan aelodau'r chweched dosbarth ac a arweiniwyd gan y Pennaeth, Mr. Gwenallt Llwyd Ifan.

Bu cynrychiolwyr elusennau ac achosion da yn bresennol i dderbyn arian a godwyd drwy weithgareddau Bl. 12 yn ystod y flwyddyn.

Lluniwyd y gwasanaeth gan Trystan ap Owen a Mica Jones ac yn darllen gyda nhw oedd Mari Rowlands a Catrin Howells. Yn cyfeilio ar y piano oedd Marisa Morgan.

Yn y llun gwelir cynrychiolwyr yr elusennau yn derbyn eu sieciau; Plant mewn Angen, Comic Relief, Apêl Siapan, Apêl Elain, Cymorth Cristnogol, Ras am Fywyd, Crossroads, Hafan y Waun, Rhoserchan, Ward y Plant Bronglais, Risg ar y Galon yn yr Ifainc, Ffibrosis Systig, ICIL Aberystwyth a Gwobr Goffa T. Llew Jones.

Diolch i Miss Howells am gynorthwyo'r chweched dosbarth wrth iddynt drefnu'r achlysur.

Gêm y Fedal Efydd

Er gwaethaf y siom o Gymru'n colli allan ar drydydd safle yng Nghwpan Rygbi'r Byd eleni, cafwyd cryn gyffro yn nwy neuadd yr ysgol wrth i'r staff a'r disgyblion ddangos eu cefnogaeth.

Disgyblion bl. 7 ac 8 yn gwylio'r gêm yn y neuadd aml-bwrpas

Swyddogion Newydd yr Ysgol

Mae'r ysgol yn falch i gyhoeddi ei swyddogion am y flwyddyn academaidd hon. Yn arwain mae'r prif fachgen, Llŷr Thomas a'r brif ferch, Rhianna Davies. Y dirprwy brif fachgen yw David Phillips a'r dirprwy brif ferch yw Heddwen Daniel. Yn eu cynorthwyo mae'r uwch swyddogion Kathryn Botting, Catrin Howells, Aoife Mahon, Eoin Mahon a Goronwy Tawy. Rhyngddynt maent yn astudio ystod eang o bynciau Safon-A y mae'r ysgol yn ei chynnig er mwyn symud ymlaen i'r Brifysgol y flwyddyn nesaf. Ynghyd ag astudio'n galed eleni dymunant gynorthwyo blynyddoedd iau'r ysgol ac y maent yn falch i gynrychioli Penweddig.

Chwith i Dde: Kathryn Botting, Goronwy Tawy, David Phillips, Llŷr Thomas, Rhianna Davies, Eoin Mahon, Catrin Howells ac Aoife Mahon. Yn absennol o'r llun mae Heddwen Daniel

Cadwch mewn cysylltiad…

Weithiau mae'r ysgol yn anfon negeseuon a llythyrau at rieni / warchodwyr trwy e-bost. Os hoffech dderbyn gwybodaeth yn y fformat hwn neu os ydych am roi gwybod am unrhyw newidiadau i'ch manylion sydd gyda ni, anfonwch e-bost at ymholiadau.penweddig@ceredigion.gov.uk

Diwrnod Siapan

Daeth 7 o ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol (Myfenydd, Penrhyncoch, Comins Coch, Llanfihangel-y-Creuddyn, Llangynfelyn, Talybont a Phlascrug) i'r digwyddiad hwn. Bu 170 o ddisgyblion yn cymryd rhan yn gyfan gwbl. Ymhlith y gweithgareddau fe gafwyd Origami (plygu papur), Gwisgo Kimono (Gwisg draddodiadol Siapan), Caligraffeg, Gwneud swshi ac arbrofi gyda Hashi (gweill bwyta).

Y chweched dosbarth oedd yn gyfrifol am yr holl weithgareddau gan roi cymorth i'r plant cynradd. Dysgodd pawb rywbeth am ddiwylliant Siapan, a hefyd cael profiadau gwych o gydweithio gyda grwpiau o oedrannau gwahanol. Mwynhaodd pawb y gwneud swshi, ond roedd rhai o'r plant ychydig yn amheus o'r blas! Yn gyffredinol bu'n ddiwrnod gwych i'r plant cynradd ac i'r chweched dosbarth a oedd yn cymryd rhan.

Cyngor Ysgol

Cynhaliwyd etholiadau hwylius i'r Cyngor Ysgol ar ddydd Iau, 14eg o Dachwedd. Ar ôl areithiau aeddfed a chynhwysfawr, etholwyd dau gynrychiolydd o bob blwyddyn i eistedd ar y Cyngor eleni:

Bl. 7: Alwen Morris a Rhodri Davies

Bl. 8: Kingsley Botting a Gwenllian ap Robert John

Bl. 9: Elliw Dafydd ac Isaac Smith

Bl. 10: Siriol Dafis a Hillary Nunn

Bl. 11: Alis Rees a Rhodri James

Mae cynlluniau'r Cyngor am y flwyddyn i ddod yn cynnwys parhau ag adnewyddiadau'r cwad, datblygu gweithgareddau allgyrsiol a pharhau i weithio gyda'r ffreutur. Gall unrhywun gysylltu â'r Cyngor Ysgol unrhyw bryd drwy eu cynrychiolwyr neu drwy e-bost ar cyngorysgol@penweddig.ceredigion.sch.uk.

Cadan ap Tomos - Swyddog Adroddol

Clwb Gwaith Cartref

Bob nos mae'r ysgol yn cynnal Clwb Gwaith Cartref lle mae disgyblion yn cael y cyfle i ddefnyddio holl gyfleusterau'r Ganolfan Adnoddau y tu allan i oriau ysgol. Mae'r clwb yn dechrau am 3.30 ac y mae aelod o staff yn bresennol i gynorthwyo disgyblion gyda'u gwaith, yn enwedig o safbwynt cywirdeb iaith. Daw'r clwb i ben am 4.30 ac am 4.00 ar nos Wener. Mae tudalen dysgu annibynnol ar wefan yr ysgol a gellir dod o hyd i lawlyfr termau Cymraeg, amserlen dysgu annibynnol a dolen-gyswllt i linell gymorth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Wythnos Ddyngarol 2011

Ar y pedwerydd o Dachwedd dechreuodd wythnos o godi arian yn yr ysgol, sef yr Wythnos Ddyngarol. Roedd gan ddisgyblion blwyddyn deuddeg y cyfrifoldeb o godi swm o arian ar gyfer cronfa elusen yr ysgol. Aethom ati i hysbysebu a chodi ymwybyddiaeth gweddill yr ysgol am weithgareddau'r wythnos.

Penderfynwyd y byddai stondin cacennau ar gael ar y stryd bob amser egwyl a chinio, felly roedd y cyfrifoldeb hwn ar weddill y disgyblion i fynd ati i goginio. Ar y dydd Llun, y 14eg o Dachwedd, trefnwyd sesiwn 'wap ar y wep' sef grŵp o ddisgyblion ac athrawon yn cael platiad o hufen wedi'i daflu ar eu hwynebau. Atynnodd hwn neuadd lawn o gynulleidfa ac mi gawsant y cyfle i gynnig arian mewn ocsiwn i daflu'r platiau.

Ar ddydd Mawrth y pymthegfed cafodd bechgyn dewr blwyddyn deuddeg y profiad o gael eu coesau wedi'u 'wacsio'. Unwaith eto roedd y neuadd dan ei sang gyda'r merched yn mwynhau gweld y bechgyn yn dioddef!

Gyda'r arian yn prysur gynyddu, codwyd swm sylweddol o ganlyniad i'r gêm hoci rhwng bechgyn a merched y chweched ar gaeau'r ysgol amser cinio. Roedd yn llawer o hwyl gyda'r cefnogwyr yn gweiddi a bloeddio, ond er y gefnogaeth frwd ar gyfer y bechgyn, enillodd y merched 3-0.



Aeth yr wythnos yn ei blaen yn llwyddiannus ac fe ychwanegwyd gweithgaredd y 'Bushtucker Trials' at y swm yma. Dyma oedd cyfle i fwy o ddisgyblion ac athrawon dewr i flasu bwydydd afiach megis Weetabix a sos coch! Roedd yn llwyddiant ysgubol ar gyfer y gronfa.

Roedd dydd Gwener y ddeunawfed yn ddiwrnod mawr i ddisgyblion blwyddyn deuddeg oherwydd dyma oedd eu cyfle i roi sioe ymlaen i weddill yr ysgol. Cynhaliwyd un yn y bore ar gyfer yr ysgol isaf ac yna un yn y prynhawn ar gyfer yr ysgol hŷn. Gwnaeth yr ymarfer funud olaf dalu ei ffordd oherwydd bu ymateb y gynulleidfa yn bositif iawn. Cafodd yr athrawon bleser wrth wylio'r chweched yn gwneud ffyliaid o'u hunain, ac felly dyma un o lwyddiannau gorau'r wythnos!
Talodd pobl 50c wrth y drws felly llenwodd y pot hyd at yr ymyl!

Dyma ganlyniad gwych i'r wythnos; mwynhaodd pawb a hefyd roedd gweithgareddau blwyddyn deuddeg wedi talu'u ffordd gyda swm o arian sylweddol.

Catrin Walters

Elis Nunn a'i ddisgyblion!

Rhydian Fitter